Duw Gobaith

Adnodau agoriadol:

"Gwyn ei fyd y dyn y mae ei obaith yn yr Arglwydd ei Dduw,
Creawdwr nefoedd a daear a'r môr a'r cyfan sydd ynddynt."
Salm 146: 5 – 6.

"Bendigedig fydd Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist!
O'i fawr drugaredd, fe barodd ef ein geni ni o'r newydd i obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw." *1 Pedr 1: 3.*

Geiriau agoriadol:

Nid dymuniad gwag a di-sail yw gobaith y Beibl, ond ymddiriedaeth hyderus yn Nuw ac yn ei addewidion.

Meddyliwch yn weddigar am y pethau hynny sy'n achosi i chi ddigalonni a thristáu a gofynnwch i Dduw eich helpu i'w goresgyn ac i ganfod gobaith yr Efengyl...

Gweddi agoriadol:

Yn ein gweddi rhown ddiolch i Dduw am ei gariad tuag atom yn Iesu Grist ac am obaith i gredu yn llwyddiant ei deyrnas yn y byd.....(distawrwydd)

Arglwydd, ti yw ein gobaith a'n grym.

Gweddïwn am ras i ymddiried yn llwyrach yng nghariad a gofal Duw ac i gyflwyno iddo ein pryderon a'n hanghenion.....(distawrwydd)

Arglwydd, ti yw ein gobaith a'n grym.

Cyflwynwn i Dduw ein gobeithion am ei eglwys ac am waith a thystiolaeth ein cynulleidfaoedd... (distawrwydd)

Arglwydd, ti yw ein gobaith a'n grym.

Ymbiliwn dros bawb sydd heb obaith; y rhai sydd yn ddi-waith, yn wrthodedig, yn dioddef cyni, ac wedi eu hymylu gan gymdeithas... (distawrwydd)

Arglwydd, ti yw ein gobaith a'n grym.

ynot ti yr ymddiriedwn. Amen.

Emyn: 778 Caneuon Ffydd.

Gweddi:

Mor braf fuasai cael gweledigaeth,
yn awr ac yn y man.
Llais yn dweud yn glir
lle i fynd
a beth yw wneud.
Dy lais yn llefaru'n
uniongyrchol,
yn mapio'n dyfodol
yn glir.
A gweld y dyfodol
yn obeithiol.
Dyna i gyd.
Ddim yn gweld pethau'n glir
mae rhywun y dyddiau yma.
Tywyllwch
a dim llawer o oleuni.
Anobaith
a dim llawer o obaith.
Digalonni.
Poeni.
Y fenter i fynd ymlaen
yn pylu,
yn gwegian
yn stopio'n stond ar brydiau.

Oes gynno ni hawl i
hel meddyliau fel hyn?
a ninnau yn ymwneud
â'r achos mwyaf mawr.
Ydyn ni'n pechu
wrth feddwl fel hyn?
Dy fychanu

a bychanu dy neges.
Ysgwyd ni
argyhoedda ni,
deffra ni.
Dim ond i ni edrych
yn y lleoedd iawn
mae'na weledigaeth
i'w chael bob dydd.
Ond ble?
Wrth ddarllen ac astudio'r
Gair.
Wrth droi ata ti
mewn gweddi,
yn ein hymwneud â phobl
eraill.
Bob dydd, rwyt ti'n
llefaru'n uniongyrchol
â ni,
a'n hannog
i fynd allan i'r byd
i garu'n cyd-ddyn.

Dro ar ôl tro, rwyt ti'n ail adrodd
bod gobaith yfory
yn ein dwylo ni heddiw,
wrth i ni dy weld di
ym mywyd ein cyd-ddyn. Amen.

Cydadrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd:

Myfyrdod:

Diolch am doriad gwawr. Dyna un peth o'n plaid ni, beth bynnag. Noson ddigon diflas oedd hi. Digon oer a rhynllyd ac i goroni'r cyfan dim dalfa o gwbl. Mae'r rhwydi'n wag. Cyfleu i'r dim ein bywydau ni. Mor llawn oedd bywyd pob un ohonon ni yn ei gwmni Ef. Erbyn hyn mae'r balans wedi mynd. Teimlo'n ansad rywsut. Rhuthr y dyddiau diwethaf yn dal

i'n llorio ni. Be wnawn ni? Mae'r dyfodol mor ddu. Mynd yn ôl at yr hen orchwyl? Na aros a disgwyl. Digon distaw oedd y saith ohonon ni – neb yn dweud ryw lawer. Gormod o atgofion. Gormod o lawer. A'r golled! Mi rydyn ni i gyd yn ei golli. Doedd dim amser i hel meddyliau pan oedd O o gwmpas. Picio o'r naill le i'r llall, cyfarfod hwn a'r llall; sôn yn feunyddiol am "ddefaid eraill." A dyma ni yn siglo yn yr hen gwch yma, y saith ohono ni a'r gêr pysgota a'r llyn yma'n dawel, dawel. Dim cyffro. Dim. Rydyn ni mor ddiolchgar bod y wawr wedi torri. Diolch am rythm bob dydd.

Mae tarth y bore bach yn dawnsio ar lan y llyn. Mae Ioan wedi weld o. Wedi nabod o. Ie, dyna'r llais. Mi fuase ni'n adnabod y llais hwn ym mhen draw byd. A'r cwestiwn! Y consyrn amdana ni, fel arfer. Holi am y ddalfa. Pobl eraill gyntaf, fel arfer. Ac ateb i'n problemau ni bob tro. 'Hogia', medda fo, 'bwriwch y rhwyd i'r ochr dde i'r cwch.' Dyna fo ar ei orau, unwaith eto. Y chwyldroadwr! Newidiwch eich dulliau, hogia! Trïwch hi'r ffordd arall. Mentrwch chi. Mewn dim roedd yna bysgod yn sblashio ymhob man. Pysgod am â welsoch chi. Mae'r undonedd wedi hen fynd, mae'na chwistrelliad o ynni wedi llenwi pob un ohonon ni. A dydw i ddim yn gwybod nad oedd y pysgod wedi cael chwistrelliad o rywbeth hefyd! Mae'r rhwyd yn mynd yn drymach a thrymach. Ond mae'r hen nerth yn dychwelyd. Hen nerth y pysgota gynt ar yr hen lyn yma. Ond mae hen nerth cwmni'r Mistar yn dod yn ôl. I ble mae O wedi mynd? Dacw fo, yn gwybod am ein hanghenion ni, fel arfer.

Mae arogl mwg, arogl pysgod. 'Dewch cymerwch frecwast.....'

Darllen: Ioan 21: 15 – 19.

Gweddi:

Mae tamprwydd tarth y bore
yn cau amdanon ni.
Dydi hwn ddim y peth gora
at gryd y cymalau,
na chwaith at iselder
yr enaid.
A dyna lle mae o'n
hofran uwchben

y lle mae'r tonnau'n
torri ar y lan.
Mor hawdd ydi
creu delweddau.
Un munud, mae'r tarth
yn edrych fel draig,
y munud nesaf yn
lindysyn hir
a'r munud nesaf
yn siâp dynol.
Llygadrythu.
Oes, mae'na siâp
dyn yna.
Na, dyn sydd yna
a'i glogyn yn cyrraedd
y cerrig ar y lan.
Mae o'n dweud rhywbeth....
Adnabod y llais.

Mae presenoldeb y bore bach
yn cadarnhau,
yn tawelu'r meddwl,
yn calonogi
yn sicrhau.
Mae dy bresenoldeb di
yn gloywi popeth o gwmpas.
Mae tarth y bore bach yn diflannu.
Mae dy gariad
yn ymlid y tarth,
yn ymlid ein prudd-der,
yn ymlid ein digalondid,
yn ymlid y gorffennol.
Mae ddoe wedi mynd.
Mae heddiw i'w drysori.
Mae yfory yn obaith
sydd heb ei gyffwrdd.

Gallwn ail afael
yn hyderus
gan wybod dy fod Ti
efo ni ymhob heddiw
ac yfory.
Yn obeithiol
wynebwn y dyfodol. Amen.

Emyn: 324 Caneuon Ffydd.

Myfyrdod:

Roedd ein gobeithion yn chwilfriw. Roedden ni wedi disgwyl pethau mawr yng nghwmni Iesu. Pob un ohonon ni. Pob un yn ei ffordd wahanol. A phan ddychwelon i Galilea, yn dilyn digwyddiadau'r Groes a'r Bedd Gwag, mi roedd hi'n anodd. Roedd hi'n ddigon anodd ceisio dod i delerau a'r digwyddiadau yn Jerwsalem. Y croeshoelio a'r haeriadau fod llawer wedi ei weld o'n fyw. Bob math o bethau'n mynd trwy feddwl dyn. Ond yr hyn oedd yn gwneud pethau'n waeth oedd y gwawdio gan ei gyfeillion. Cyfeillion, mewn enw, beth bynnag. 'Yr holl wastraff' medda nhw. 'Tair blynedd a dim i'w ddangos', medda nhw. 'Sôn am gael eich dal yn y rhwyd,' medda nhw. 'Pysgotwyr cyhyrog yn dilyn saer oedd â'i ben yn y cymylau,' medda nhw.

A phob gair yn taro fel gordd ac yn diasbedain trwy ben rhywun. 'Dim i'w ddangos,' y geiriau yna oedd yn mynd i'r byw ac yn brifo. Tair blynedd o wastraff pur!

A dyma ni yn y lle y dechreuon ni. A dim byd i'w ddangos y tro hwn eto. Hirnos o fethiant, unwaith yn rhagor. Dim byd i'w ddangos am yr holl ymdrech. Bywyd yn gallu bod mor greulon; yn taro ddwywaith! Mwy o siarad a gwawdio gan ein ffrindiau! Ond mi ddaeth y trobwynt. Un funud, dim, munud nesa roedd y rhwyd yn tasgu o bysgod o bob math, cant pum deg a thri ohonyn nhw. Y ddalfa orau erioed, debygwn i. Welson ni erioed y fath beth. Mor drwm oedd y rhwyd fel roedden ni'n cael anhawster i'w chodi o'r dŵr.

Dechrau hel meddyliau eto. Cofio, dair blynedd yn ôl am ddalfa debyg ond mi dorrodd y rhwyd y tro hwnnw. Roedd o'n ddechrau bywyd newydd, bywyd disgybl. Bywyd hollol wahanol. Beth sy'n digwydd,

rwan? Dyma ni'n cael help eto i roi ddoe a'i brofiadau tu ôl i ni. Ddoe a'i siom. Ddoe a'i rwystredigaethau a'i brofiadau chwerw. Ddoe a'i ddagrau. Galwad oedd yma i wynebu yfory yn obeithiol. Ar y traeth hwn y cawsom ni'n galw i fywyd newydd, dair blynedd yn ôl. Rŵan yn yr union le, cawn ein galw i adnewyddu. I afael ynddi o'r newydd. I fentro, unwaith eto i'r dwfn. Dechrau newydd, a'r gorffennol tu ôl i ni. Gall hyn ddigwydd i chi. Pa mor ddu bynnag mae'r dyfodol yn edrych, gall bywyd ddechrau o'r newydd heddiw.

Emyn: 758 Caneuon Ffydd.

Gweddi:

Mor hawdd, Arglwydd,
ydi addo.
Addo gwneud hyn a'r llall,
addo gwneud ein gorau,
a deud
heb flewyn ar dafod,
petai pawb arall yn methu
y buasen ni'n
dal ati
yn ffyddlon
i'r diwedd.
Mor hawdd, Arglwydd
ydi addo.
Bywyd yn llawn o addewidion
a'r cwbl yn chwilfriw
yn y diwedd.
Dim i'w ddangos
ond creithiau
hen atgofion.

Mor anodd ydi
maddau i'n hunain.
Gwell fyddai anghofio
am y cyfan.

Ond mae'n nhw'n dal
i frigo i'r wyneb,
ac atal cynnydd
a ffyddlondeb
a chreu parlys
ac anghydfod
o'n mewn
a'n gwneud
yn dryblith
o densiynau,
trafferthion
a rhwystredigaethau.

Beth ydi'r ffordd ymlaen
Arglwydd?
Cydnabod ein methiant.
Does yna ddim drwg
yn hynny.
Ond mae o'n brifo'n
hunanddelwedd.
Ni, wedi methu?
Derbyn ein methiant
Arglwydd.
A phwy a ŵyr
na fyddi di'n
ein herio
efo ateb newydd.
'Bugeilia fy nefaid'
'Portha fy ŵyn.'
Rhoddion
cyfrifoldebau newydd
ydi'r rhain.
Dysg ni, Arglwydd
i ymateb yn obeithiol
i sialens newydd
dy Efengyl Di. Amen.

Cwestiynau i'w trafod:
Beth sy'n eich gwneud chi yn ddiobaith ynglŷn â bywyd eich eglwys?

Tybed ydi'n gweledigaeth o'r Efengyl yn rhy gyfyng a chul? Yn ôl maniffesto Iesu mae'r deillion yn gweled, y byddar yn clywed, y cloffion yn cerdded. Onid ydi'r Efengyl yn fwy o lwyddiant heddiw nag y bu erioed?

Fyddech chi'n dweud mai yn ein hymwneud â'n cyd-ddyn y mae byw Efengyl Iesu Grist? Ydy ni'n byw gormod i ni ein hunain ac yn anwybyddu eraill?

Onid dechrau pob gobaith heddiw i'w ildio i gariad Duw a gadael y canlyniadau wedyn yn ei law? Neu a ydyn ni'n osgoi ein cyfrifoldeb wrth wneud hyn?

Fyddech chi'n dweud mai galwad i waith ydi galwad Duw ymhob oes? Tybed a'i dyma'r gwendid heddiw ein bod yn byw ein Cristnogaeth fel hobi neu weithgaredd amser hamdden. Onid yn llwyredd yr ymroddiad mae wynebu'r dyfodol?

'Ai colli cymuned ynteu colli cred yw argyfwng Cymru? Ai mater o gredu neu fater o ddirywiad ardaloedd gwledig Cymru yw dirywiad yr eglwysi?' (Pryderi Llwyd Jones, Iesu'r Iddew t 70 – 71) Trafodwch.

Emyn: 868 Caneuon Ffydd.

Myfyrdod:

Pa mor aml ydyn ni'n rhoi'r pwyslais ar y pethau dibwys, eilradd ac anwybyddu'r pethau pwysig. Dyna oedd gwendid y Phariseaid ym marn Iesu. Pwyslais mawr ar yr eilradd ac anwybyddu neu o leiaf ddibrisio'r blaenoriaethau. Tybed oes yna arlliw o hyn yn hanes y ddalfa fawr o bysgod yng nghyd-destun y digwyddiadau yn y bore bach. Y rhyfeddod yw fod rhywun wedi bod mor ofalus a chysáct efo'r mathemateg! Mae'r ffigwr mor bendant – 'cant pum deg a thri o bysgod.'

Fuo na rywun yn eu cyfri fesul un? Mae'n anodd gen i goelio yng ngwres y profiad. Y fath brofiad. Y fath sioc o weld Iesu yn sefyll ar y lan. Y fath ddalfa ac wedyn rhywun yn mynd ati fesul un i gyfri'r cyfan. Oedd cyfri'r pysgod yn flaenoriaeth yng ngwres y funud honno? Dydi'r ffigwr manwl ddim mor bwysig â hynny. Oes gynno ni obsesiwn efo'r dibwys, y dibris a'r eilradd? Mae cymaint o'n hegni yn mynd ar ôl pethau, sydd heddiw gyda ni ond yfory wedi mynd. Mor hawdd ydi cael ein temtio i fynd ar hyd heolydd sy'n arwain i unlle. Onid ein gwaith ni yw canolbwyntio ar yr hanfodion. Ym myd eglwys a chapel mor bwysig ydi cael tusw o flodau yn barod ar gyfer Sul, gofalu fod dillad yr offeiriad yn drefnus ar gyfer y gwasanaeth. Tra mae'n cymuned yn chwilio am arweiniad a ffordd ymlaen. Rhyfeddodd Iesu at flodau'r maes a dywedodd yn blaen nad yr hyn rydyn ni'n ei wisgo sy'n bwysig. A dyma ni'n chwarae tra mae Rhufain yn llosgi. Defnyddiwn ein hegni a'n hamser ar bethau sy'n mynd i wneud gwahaniaeth i gyd-ddyn ac i'r byd.

Dowch yn ôl at y pysgod. Oes yna ystyr dyfnach i'r ffigwr ynteu oedd rhywun wedi mynd i'r drafferth i'w cyfri fesul un? Yr hyn sy'n bwysig yw fod y rhwyd yn ddigon gwydn a chryf i ddal y pysgod i gyd. Faint bynnag oedd yna 'ni thorrodd y rhwyd.' Mae rhwyd y deyrnas cyn gryfed â hon. Mae hon hefyd yn gallu dal pob math. Roedd digon o le ynddi i deip Simon Pedr, a wadodd ei Feistr. Roedd digon o le ynddi i'r disgyblion eraill hefyd er gwaetha eu ffaeleddau a'u methiannau. A dyma daflu'r rhwyd yn yr oedfa hon. Mae digon o le i bob un ohonon ni yn hon hefyd. Cofiwch, fod digon o le i'r rhai sy'n anghytuno â ni, mae digonedd o le i'r rhai rydyn ni'n eu casáu yn hon. Gymaint ydi'r straen o allu cyd-fyw a chyd-ddyheu mae digonedd o le yn hon.

Atgoffa ni o'n blaenoriaethau:

Rydym yn credu ym modolaeth Duw o'n cwmpas,
Creawdwr a Chynhaliwr bywyd i gyd,
yr haul a'r lloer,
y sêr a'r planedau,
pob gwryw a benyw.
Rydym yn credu fod Duw yn agos atom yn

Iesu Grist y Gair a wnaethpwyd yn gnawd.
Wedi'i eni, yn ffrind i bawb,
wedi'i hoelio ar y groes, gŵr gofidiau.
Bu farw a'r trydydd dydd.
cyfododd Duw Ef o'r bedd.
Dyrchafwyd ef i'r nefoedd,
fel y gall fod ymhob man.
Daw ei deyrnas ar y ddaear.
Rydyn ni'n credu fod Duw ynom,
Ysbryd Glân y gwynt a'r tân,
anadl bywiol yr eglwys,
Ysbryd maddeuant a chymod.
Ffynhonnell yr atgyfodiad a bywyd tragwyddol. Amen.

Iona Abbey Worship Book.

Y Fendith:

Arglwydd, ti a wyddost bopeth.
Nid ein geiriau ni sy'n bwysig.
Ond dy eiriau Di.
Boed i ni wrando o'r newydd. Amen.